Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Adolygiad Craffu Manwl
# Adroddiad Cynnydd

## A yw Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu yn effeithiol?

**Mehefin 2024**

## Cynnwys


Trosolwg ..... 2

Ymateb Strategol Heddlu Dyfed-Powys i Stelcio ac Aflonyddu ..... 2

Adroddiad Cynnydd gan Heddlu Dyfed-Powys ..... 2

Argymhellion Adnoddau ..... 3

Argymhellion Hyfforddiant ..... 5

Argymhellion Data ..... 7

Argymhellion Ymyriadau Cyflawnwyr ..... 9

Argymhellion Monitro Cyflawnwyr ..... 12

Argymhellion Dioddefwyr ..... 13

Adroddiad Cynnydd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a SCHTh ..... 15

Casgliad ..... 16

## Trosolwg

Ym mis Hydref 2023, cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) adroddiad i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ganfyddiadau adolygiad craffu manwl a oedd yn pennu a oedd Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu yn effeithiol.

Trwy graffu dwys yn y maes hwn, canfu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) fod Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu yn effeithiol mewn nifer o achosion, ond nad oedd yn ddarlun cyson. I weld prif ganfyddiadau'r craffu manwl, ewch i wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, lle darperir crynodeb hefyd.

Nododd SCHTh nifer o argymhellion a gafodd eu grwpio yn y penawdau 'Adnoddau', 'Hyfforddiant', 'Data', 'Ymyriadau Cyflawnwyr', 'Monitro Cyflawnwyr', a 'Dioddefwyr'.

## Ymateb Strategol Heddlu Dyfed-Powys i Stelcio ac Aflonyddu

Mae'r ymateb strategol i stelcio ac aflonyddu yn cael ei arwain gan Brif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed-Powys a'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus. Fel blaenoriaeth bresennol i'r Prif Gwnstabl, mae plismona stelcio ac aflonyddu wedi bod yn destun ffocws i'r heddlu trwy Grŵp Gwella Thematig Bregusrwydd a arweinir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Defnyddiwyd canfyddiadau'r adolygiad craffu manwl gan y grŵp. Mynychodd Pennaeth Strategaeth a Pholisi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfarfodydd y grŵp i sicrhau trosolwg o gynnydd.

## Adroddiad Cynnydd gan Heddlu Dyfed-Powys

Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Chwefror 2024, saith mis ar ôl cael yr adroddiad, cyflwynodd Heddlu Dyfed-Powys ddiweddariad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gynnydd yn erbyn pob argymhelliad. Er mwyn darparu'r adroddiad diweddaraf ar gynnydd Heddlu Dyfed-Powys i'r Panel Heddlu a Throseddu, ym mis Mehefin 2024, cyfarfu cynrychiolydd SCHTh â'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus i drafod cynnydd yn erbyn pob argymhelliad yn fanwl.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi ymateb cychwynnol yr heddlu i bob argymhelliad ar ôl cael yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2023, y cynnydd a wnaed ym mis Chwefror 2024, a'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu hwn (Mehefin 2024). Rhoddwyd sgôr coch melyn gwyrdd i bob argymhelliad o ran y cynnydd a wnaed:

| | |
|---|---|
| Coch | Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud. |
| Melyn | Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae angen mwy. |
| Gwyrdd | Mae'r argymhelliad wedi'i gwblhau. |

Rhoddir manylion gweithgaredd monitro parhaus SCHTh yn erbyn pob argymhelliad isod hefyd.

Sylwch na neilltuwyd Argymhellion 5 ac 18 i Heddlu Dyfed-Powys, ond i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a SCHTh yn y drefn honno.

## Argymhellion Adnoddau

**Argymhelliad 1**

**Dylai'r heddlu glustnodi cyllid cynaliadwy tymor hwy ar gyfer swydd Cydgysylltydd Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd yr heddlu yn mynd ati i geisio cyllid hirdymor ar gyfer rôl Cydgysylltydd Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio.

**Cynnydd Chwefror 2024**

- Cafwyd cyllid am gyfnod o 12 mis drwy'r Ddyletswydd Trais Difrifol.
- Mae gwaith yn parhau i ddod o hyd i gyllid tymor hwy i sicrhau bod y swydd yn gynaliadwy.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae cyllid wedi'i gadarnhau tan fis Ebrill 2025.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ceisio cyllid tymor hir.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Er mwyn cynnal trosolwg o gynnydd yn erbyn yr holl argymhellion sy'n weddill, bydd SCHTh yn cyfarfod â'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus ym mis Ionawr 2025.
- Gofynnir am ddiweddariad ar y sefyllfa ariannu hirdymor.

**Argymhelliad 2**

**Dylid rhoi blaenoriaeth i recriwtio i rôl y Swyddog Gorchmynion Sifil.Dylai datblygu proses i fonitro troseddwyr sy'n destun pob gorchymyn sifil fod yn un o dasgau cychwynnol y rôl.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Mae'r swydd hon wedi'i chymeradwyo gan yr heddlu a bydd yn dwyn ffrwyth yn hydref 2023.

**Cynnydd Chwefror 2024**

- Mae cwnstabl heddlu wedi'i recriwtio i rôl Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil ac wedi dechrau hyfforddiant.
- Mae negeseuon mewnol ynghyd â map proses wedi'u dosbarthu i sicrhau eglurder ynghylch y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil fel ffynhonnell gwybodaeth a chymorth.
- Mae'r cydgysylltydd wedi dechrau ymweliadau â gorsafoedd heddlu i gynorthwyo gyda llunio ceisiadau am orchmynion sifil.
- Mae hefyd yn datblygu llyfrgell o orchmynion sifil i wella'r broses o oruchwylio a rheoli gorchmynion ac unrhyw doriadau dilynol.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn llunio rhestr o gyflawnwyr sy'n destun gorchmynion sifil i ddarparu adroddiad proffil i Heddlu Dyfed-Powys o ran nifer y troseddwyr a'r mathau o orchmynion sifil.

| |
|---|
| • Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn cysylltu â swyddogion i gadarnhau a yw troseddwyr a neilltuwyd iddynt, sy'n destun gorchmynion sifil, wedi mynychu'r rhaglen cyflawnwyr orfodol.<br>• Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil wedi ymgymryd â chyfnod o arsylwi ac uwchsgilio o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Ganolfan Bregusrwydd.<br>• Yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Stelcio ym mis Ebrill 2024, bu'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn ymwneud â gweithgareddau gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r rôl a'r defnydd o orchmynion sifil.<br>• Fel rhan o ymgyrch Flagship[1] genedlaethol, ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, bydd y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn ymwneud ag agweddau gorchmynion sifil ar gynllun cyflawni'r ymgyrch. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Mae'r Cynghorydd Polisi sy'n arwain ar y darn hwn o waith wedi cyfarfod â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil i ddeall y rôl yn llawn a bydd yn cadw mewn cysylltiad er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau, meysydd o bryder ac arferion da yn y maes hwn. |

| **Argymhelliad 3**<br>**Dylid annog swyddogion i fynd ati'n rhagweithiol i geisio cymorth a chyngor arbenigol gan y gwasanaethau cyfreithiol, hyrwyddwyr stelcio a'r Uned Rheoli Troseddwyr wrth ymdrin ag achosion o stelcio ac aflonyddu.** |
|---|
| **Ymateb Gorffennaf 2023**<br>• Unwaith y bydd y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil ar waith, bydd yn rhoi cymorth i swyddogion ac yn cydlynu cyswllt â'r arbenigwyr hynny a all ddarparu gwybodaeth am yr amrywiaeth o orchmynion a'r broses gwneud cais.<br>• Bydd Ditectif Ringylliaid sy'n rheoli'r broses drafod ddyddiol yn parhau i ysgogi swyddogion ynghylch mesurau sifil; a chyfeirio staff at wybodaeth arbenigol. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Cynllunnir cyfathrebu mewnol i amlygu'r pwyntiau cyswllt unigol ar draws yr heddlu a all roi cyngor ac arweiniad i swyddogion rheng flaen. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Fel rhan o ymgyrch Flagship, bydd y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn hyrwyddo gorchmynion sifil, ac yn cysylltu â swyddogion sydd ag ymholiadau/sydd angen arweiniad.<br>• Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn canolbwyntio ar sicrhau bod goruchwylwyr yn yr Adran Ymchwiliadau Troseddol (CID) a'r Unedau Ymchwilio Lleol yn deall gorchmynion sifil, gan mai nhw yw'r swyddogion sydd fwyaf tebygol o fod yn ymchwilio i achosion megis stelcio. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Yn unol ag Argymhelliad 2, bydd y Cynghorydd Polisi yn cadw mewn cysylltiad â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil er mwyn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau pellach yn y maes hwn. |

[1] Ymgyrch Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn ystod twrnamaint EURO 2024.

## Argymhellion Hyfforddiant

| **Argymhelliad 4**<br><br>**Dylai'r heddlu adolygu effaith y rhaglen hyfforddi Hyrwyddwyr Stelcio ar ei newydd wedd o fewn 12 mis i'w gweithredu. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys ystyriaeth o adborth gan ddioddefwyr, canlyniadau a data aildroseddu.** |
|---|
| **Ymateb Gorffennaf 2023**<br><br>• Bydd yr hyfforddwr bregusrwydd yn cydlynu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau bod gan Hyrwyddwyr Stelcio wybodaeth well am gam-drin domestig a stelcio ac aflonyddu. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br><br>• Mae hyfforddiant Hyrwyddwyr Stelcio wedi'i ddarparu i gynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys sy'n ymgymryd ag amrywiaeth eang o rolau ar draws y sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys profiad byw Rachel Williams, Stand Up to Domestic Abuse, a gafodd gryn effaith ar swyddogion.<br>• Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r mewnbynnau rheolaidd yn cael ei gwblhau ym mis Chwefror 2025. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br><br>• Cyflwynwyd diwrnod hyfforddi Hyrwyddwyr Cam-drin Domestig ym mis Mawrth/Ebrill 2024, dan arweiniad Hyfforddwr Bregusrwydd Heddlu Dyfed-Powys.<br>• Mynychodd yr holl hyrwyddwyr ddigwyddiadau uwchsgilio a rhannu gwybodaeth yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Stelcio ym mis Ebrill 2024.<br>• Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynnal diwrnod asesu risg ar gyfer Swyddogion Cam-drin Domestig a staff yr Uned Asesu Risg Eilaidd sy'n cael eu hystyried yn hyrwyddwyr.<br>• Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal trafodaethau â Gwasanaeth Eirioli Stelcio Cenedlaethol Paladin[2] mewn perthynas â darparu hyfforddiant Hyrwyddwr Stelcio yn ddiweddarach eleni, er nad oes cyllid wedi'i sicrhau eto.<br>• Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r mewnbynnau rheolaidd yn cael ei gwblhau ym mis Chwefror 2025. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br><br>• Yn unol ag Argymhelliad 1, er mwyn cadw trosolwg o gynnydd, bydd SCHTh yn cyfarfod â'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus ym mis Ionawr 2025.<br>• Gofynnir am ddiweddariad ar gynlluniau ar gyfer hyfforddiant penodol i Hyrwyddwyr Stelcio. |

[2] Paladin – Gwasanaeth Eirioli Stelcio Cenedlaethol (paladinservice.co.uk)

| **Argymhelliad 6**<br>**Dylai'r heddlu geisio adborth penodol gan swyddogion ar fewnbynnau gan ddioddefwyr a goroeswyr mewn unrhyw arolygon hyfforddi yn y dyfodol.** |
|---|
| **Ymateb Gorffennaf 2023**<br>• Bydd hyfforddiant Canolfan Bregusrwydd yn y dyfodol yn casglu adborth gan staff, a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio hyfforddiant yn y dyfodol.<br>• Bydd y swyddog hyfforddi newydd yn gallu rheoli a monitro hyn gan ddefnyddio 'ffurflenni' ar Microsoft Teams. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Mae'r gweithgaredd hwn yn cysylltu ag Argymhelliad 4 a bydd yn cael ei gynnwys yn y gwerthusiad. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Mae'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus wedi clywed yn anecdotaidd bod swyddogion heddlu yn cefnogi clywed gan y rhai sydd â phrofiad personol yn ystod hyfforddiant.<br>• Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ffurfiol fodd bynnag yn y gwerthusiad uchod. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Gofynnir am ddiweddariad ar y broses i adalw adborth swyddogion ar fewnbynnau dioddefwyr gan y Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus ym mis Ionawr 2025. |

| **Argymhelliad 7**<br>**Dylai'r heddlu ystyried sut y gallai dysgu o adroddiad ymgyrch Soteria Bluestone fod yn berthnasol ac yn gymwys i blismona stelcio ac aflonyddu.** |
|---|
| **Ymateb Gorffennaf 2023**<br>• Mae tîm ymgyrch Soteria[3] wrthi'n adolygu'r model gweithredu sydd newydd ei gyhoeddi a bydd yn rhannu'r dysgu perthnasol ar draws meysydd eraill gan gynnwys stelcio ac aflonyddu, cam-drin domestig, a cham-drin plant yn rhywiol.<br>• Bydd un o elfennau allweddol dysgu yn canolbwyntio ar gymorth i ddioddefwyr a chanolbwyntio ar yr unigolyn a ddrwgdybir.<br>• Bydd ailstrwythuro'r ymateb strategol i fregusrwydd yn cefnogi hyn gan fod y Ditectif Brif Arolygydd a'r Ditectif Arolygydd â chyfrifoldeb am dreisio a throseddau rhywiol difrifol eraill bellach hefyd yn arwain ar gam-drin domestig a stelcio ac aflonyddu. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Gweithgaredd parhaus: Diweddariad o fis Gorffennaf 2023. |

[3]"Mae Ymgyrch Soteria Bluestone yn rhaglen ymchwil a newid genedlaethol a ariennir gan y Swyddfa Gartref […] i alluogi heddluoedd i drawsnewid eu hymateb i dreisio a throseddau rhywiol difrifol."
https://www.npcc.police.uk/our-work/violence-against-women-and-girls/operation-soteria/

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Rhoddodd y Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus wybod am ddysgu ymgyrch Soteria allweddol mewn perthynas ag ymgysylltu â dioddefwyr. Er enghraifft:
  - Mae Heddlu Dyfed-Powys yn edrych ar sut maent yn gweithredu ymgysylltiad dioddefwyr a chyswllt parhaus; ac
  - maent yn gwneud y defnydd gorau o gyngor cynnar gan Wasanaeth Erlyn y Goron; proses a anogir trwy ymgyrch Soteria.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r CHTh mewn perthynas ag ymgyrch Soteria yn y Bwrdd Plismona. Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Gorffennaf.
- Mae staff SCHTh yn mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol rheolaidd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag ymgyrch Soteria, a chaiff y rhain eu huwchgyfeirio at y CHTh os oes angen.

## Argymhellion Data

**Argymhelliad 8**

**Os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes, dylai'r heddlu nodi'r dulliau atal ac ymyrryd a ddefnyddir yn erbyn troseddwyr mynych yn eu hadroddiadau proffil troseddu yn y dyfodol.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Mae gwybodaeth a chanllawiau ar reoli cyflawnwyr ar gael ar fewnrwyd yr heddlu, er hyn, mae gwahaniaeth yn y ffordd y mae swyddogion/staff yn cofnodi'r wybodaeth hon.
- Mae angen gwella hyn, a bydd yr heddlu yn gweithio tuag at hyn yn ystod y 12 mis nesaf.
- Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yn cael ei fonitro drwy strwythur llywodraethu'r heddlu, bydd y camau gweithredu'n cael eu rheoli ar gynllun gweithredu'r heddlu.

**Cynnydd Chwefror 2024**

- Mae proses yn cael ei threialu ar draws yr heddlu i nodi cyflawnwyr risg uchel, sydd wedyn yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd cudd-wybodaeth a thasgau misol.
- I gyd-fynd â'r broses hon mae dogfen ganllaw sy'n amlinellu'r opsiynau ymyrryd ac atal sydd ar gael i droseddwyr. Mae hefyd yn cynnwys dolen i'r pecyn cymorth Trais yn Erbyn Menywod a Merched sy'n cyfeirio'n benodol at opsiynau rheoli troseddwyr.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Er mwyn nodi troseddwyr mynych yn effeithiol a'u hystyried ynghyd â'r ymyriadau a ddefnyddiwyd, mae'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus wedi ysgrifennu papur opsiynau i'w drafod gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol, yn nodi proses tasgio a chydgysylltu amlasiantaeth newydd.

- Bydd gwelliannau mewn prosesau data (gweler diweddariadau Argymhelliad 9) yn galluogi mwy o ystyriaeth i ddulliau atal ac ymyrryd wrth lunio adroddiadau proffil trosedd.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Gofynnir am ddiweddariad ar y broses Tasgio a Chydgysylltu Amlasiantaeth gan y Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus ym mis Ionawr 2025.

**Argymhelliad 9**

**Dylai'r heddlu ehangu ei ddangosfyrddau perfformiad i alluogi craffu agosach ar geisiadau am orchmynion sifil a'r achosion o dorri gorchmynion sifil.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Bydd y tîm strategol yn gweithio'n agos gyda'r tîm perfformiad i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu yn y dangosfwrdd. Yn ogystal, bydd y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn cynnal adolygiadau dyddiol o systemau'r heddlu i fonitro digwyddiadau a sicrhau bod ymateb cadarn i unrhyw achosion o dorri gorchmynion sifil.

**Cynnydd Chwefror 2024**

- Dim cynnydd: Diweddariad o fis Gorffennaf 2023.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Yn unol ag Argymhelliad 2, mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn llunio rhestr o gyflawnwyr sy'n destun gorchmynion sifil. Mae angen lanlwytho'r broses hon i ddangosfwrdd perfformiad ac mae trafodaethau'n parhau ynghylch yr hyn y mae angen i'r dangosfwrdd ei gynnwys.
- Mae Dadansoddwr Bregusrwydd wedi'i recriwtio ac mae'n adolygu'r data sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn cyfoethogi'r data a ystyriwyd mewn byrddau perfformiad.
- Mae Rheolwr Perfformiad Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd yn asesu a yw Heddlu Dyfed-Powys yn delio'n effeithiol ag achosion o dorri amodau: Darn o waith heriol a fydd yn gwella gallu Heddlu Dyfed-Powys i fonitro ac ymateb i doriadau.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Bydd cynnydd ar ddangosfyrddau perfformiad yn cael ei fonitro drwy bresenoldeb cynrychiolwyr SCHTh yng nghyfarfodydd llywodraethu'r heddlu.
- Gofynnir am ddiweddariad ar ddatblygiad y dangosfwrdd perfformiad gan y Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus ym mis Ionawr 2025.

**Argymhelliad 10**

**Dylai Heddlu Dyfed-Powys fod yn sicr y gall swyddogion ymchwilio gael mynediad hawdd at gofnod cyflawn o hanes cyflawnwr o dorri amodau ar y cam cynharaf posibl o ymchwiliad.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Bydd unrhyw doriad a adroddir i Heddlu Dyfed-Powys yn arwain at greu digwyddiad ar y System Gofnodi Digwyddiadau a Defnydd o Adnoddau

| |
|---|
| (STORM), a lle bo angen, cofnodi trosedd, neu ddod â'r troseddwr i'r ddalfa. Bydd y camau hyn yn cael eu cynnwys ar system rheoli cofnodion yr heddlu (NICHE).<br>• Bydd y camau hyn yn cael eu nodi yn y dyfodol trwy chwilio am y person ar y system rheoli cofnodion. Fodd bynnag, ni fydd y cofnod yn cynnwys gwybodaeth os nad yw'r heddlu wedi ymateb i gŵyn am yr unigolyn.<br>• Bydd swyddogion heddlu yn cael eu cyfarwyddo i gynnal chwiliadau ar NICHE, STORM, Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, a Chronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gefndirol am y cyflawnwr.<br>• Yn y dyfodol bydd yr heddlu yn casglu manylion unrhyw doriadau nad ydynt yn gofyn am greu cofnod trosedd mewn adran ar ffeil y person. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw achosion o dorri gorchmynion ac unrhyw gynllun rheoli risg ar gael i'r holl swyddogion/staff perthnasol.<br>• Nid yw pecyn rheoli troseddwyr y system rheoli cofnodion wedi'i weithredu hyd yma, ond bydd yn cael ei gynnwys yng ngham 2 y cynllun cyflawni. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i swyddogion a staff am doriadau nad ydynt yn gysylltiedig â digwyddiad neu neges STORM. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Dim cynnydd: Diweddariad o fis Gorffennaf 2023. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Bydd manylion yr achosion o dorri amodau Heddlu Dyfed-Powys ac asiantaethau allanol, a arweiniodd at greu trosedd, yn awr ar Niche. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Trwy gyswllt parhaus â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil, bydd SCHTh yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion sy'n ymwneud â thorri gorchmynion sifil. |

## Argymhellion Ymyriadau Cyflawnwyr

| **Argymhelliad 11**<br>**Dylai gwaith i wreiddio'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr o fewn Niche gael ei flaenoriaethu gan yr heddlu, er mwyn peidio ag anghofio am y prosiect hollbwysig hwn.** |
|---|
| **Ymateb Gorffennaf 2023**<br>• Mae tîm perfformiad yr heddlu wedi cael y dasg o ailadeiladu'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr.<br>• Nid yw'r tîm wedi gallu cwblhau'r gwaith oherwydd y galw ychwanegol yn dilyn gweithredu NICHE.<br>• Mae'r cais yn y ciw gwaith sy'n cael ei flaenoriaethu ar sail risg.<br>• Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro drwy strwythur llywodraethu'r heddlu. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Yn y cyfamser, mae Heddlu Dyfed-Powys yn nodi cyflawnwyr mynych trwy ddangosfwrdd Power BI. |

- Roedd proses hefyd wedi'i chyflwyno i sicrhau bod troseddwyr mynych risg uchel yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd cudd-wybodaeth a thasgau lleol.
- Er nad hwn mor ymarferol â'r Offeryn Blaenoriaethu Cyflawnwyr, mae wedi galluogi'r heddlu i gael proses fwy cadarn ar gyfer nodi troseddwyr.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae'r broses interim yn parhau ar waith.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Ym mis Ionawr 2025, gofynnir am ddiweddariad ar broses fwy parhaol o fonitro cyflawnwyr mynych gan y Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus.

**Argymhelliad 12**

**Dylai Heddlu Dyfed-Powys geisio sicrwydd bod swyddogion ymchwilio yn ystyried defnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys gorchmynion sifil, fel rhan o'u strategaethau rheoli cyflawnwyr, ac ar y cam cynharaf posibl o ymchwiliad.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Mae'r Pecyn Cymorth Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn darparu ystod eang o ymyriadau ar gyfer troseddau gan gynnwys stelcio ac aflonyddu. Mae hwn ar gael trwy'r fewnrwyd ac mae wedi'i gynnwys yn y pecyn dysgu a roddir i oruchwylwyr pan fyddant yn mynychu eu diwrnod ymgyfarwyddo ag Uned Asesu Risg Eilaidd / Uned Rheoli Troseddwyr.
- Bydd y fframwaith archwilio newydd yn ceisio cynnwys proses a fydd yn gwirio, a phrofi a yw ymyriadau yn cael eu hystyried lle bo angen.

**Cynnydd Chwefror 2024**

- Mae'r Pecyn Cymorth Trais yn Erbyn Menywod a Merched ar gael trwy'r fewnrwyd a nawr trwy hyperddolen ar NICHE sy'n benodol i ddiogelu.
- Bydd rolau'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil a Chydgysylltydd Cyflawnwyr Stelcio yn sicrhau bod gan yr heddlu well goruchwyliaeth a rheolaeth o orchmynion ac ymyriadau.
- Bydd cyflwyno Clinig Stelcio gyda seicolegwyr yn galluogi staff i asesu'r ymyriadau mwyaf priodol yn seiliedig ar ymddygiad troseddol a chyflwyniad y drosedd.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae rolau sefydledig y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil a Chydgysylltydd Cyflawnwyr Stelcio yn sicrhau bod swyddogion yn goruchwylio defnydd swyddogion o ymyriadau megis gorchmynion sifil.
- Fel rhan o ymgyrch Flagship, dros gyfnod o fis, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn canolbwyntio ar adolygu a ddylid ystyried unrhyw achosion byw ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Trwy gyswllt parhaus â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil, bydd SCHTh yn monitro'r defnydd o ymyriadau megis gorchmynion sifil.

- Bydd y Cynghorydd Polisi sy'n arwain ar y darn hwn o waith yn mynychu clinig stelcio ym mis Gorffennaf 2024 i arsylwi ar y prosesau sydd ar waith a'r ystyriaeth a roddwyd i hanes torri amodau'r troseddwyr.
- Ym mis Awst 2024, bydd Panel Sicrhau Ansawdd CHTh yn ailedrych ar stelcio ac aflonyddu yn eu gweithgarwch craffu. Mae ystyriaeth swyddogion o orchmynion sifil yn gynnar yn y broses yn cael ei hystyried ar hyn o bryd fel y testun ffocws.

**Argymhelliad 13**

**Dylai'r heddlu sicrhau bod yr holl ystyriaethau o asesiadau (fel y cynnydd yn y risg o laddiad) ac unrhyw ymyriadau (fel gorchmynion sifil a'r Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd), p'un a gaiff eu datblygu ai peidio, yn cael eu nodi gan swyddogion o fewn y system rheoli troseddau.Dylai hyn gynnwys pan fydd achosion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Mae'r llinell amser/uchgyfeirio risg lladdiad yn offeryn a ddefnyddir gan aseswyr risg eilaidd wrth asesu ffactorau galw cynyddol a nodi sbardunau wrth ystyried gweithredoedd y rhai sy'n cyflawni stelcio ac aflonyddu. Mae hyn yn cynorthwyo staff i nodi achosion lle mae risg gynyddol i'r dioddefwr ac mae'n broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerloyw.
- Er mwyn gwreiddio'r hyfforddiant hwn ar draws y sefydliad, mae nifer o sesiynau hyfforddi wedi'u cyflwyno ar draws yr heddlu, gan ddefnyddio cyllid allanol.Mae tua 300 o swyddogion a staff wedi derbyn yr hyfforddiant hyd yma gan gynnwys ymchwilwyr, swyddogion cam-drin domestig a swyddogion ymateb.Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant wedi'i fandadu i bawb, felly mae hyn yn rhywbeth y mae'r heddlu yn edrych arno yn y 12 mis nesaf.
- Mae asesiadau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu ac asesiad sgrinio ar gyfer stelcio ac aflonyddu yn cael eu cofnodi ar NICHE ac yn gysylltiedig â chofnod y digwyddiad a chofnod y bobl a enwir fel risg posib. Mae'r rhain yn brosesau safonol a ddefnyddir yn eang ar draws plismona i asesu'r risg bosibl i ddioddefwyr cam-drin domestig a stelcio.
- Dim ond i'r rhai a ddrwgdybir y mae eu hymchwiliadau wedi'u cwblhau heb unrhyw gamau pellach gan yr heddlu y gellir cynnig y Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd. Ni fydd y manylion hyn yn cael eu cofnodi fel mater o drefn ar y system rheoli troseddau. Bydd cydlyniad a phresenoldeb yn cael eu rheoli gan y Cydgysylltydd Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio.
- O ran y system rheoli troseddau, mae'r ymateb yn unol â'r sylwadau ar gyfer argymhelliad 8.

**Cynnydd Chwefror 2024**

- Dim cynnydd: Diweddariad o fis Gorffennaf 2023.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae prosesau wedi'u proffesiynoli drwy gyfarfodydd rheoli dyddiol yr heddlu lle mae uwch swyddogion yn gwirio a yw swyddogion wedi ystyried asesiadau risg/ymyriadau ac yn dwyn goruchwylwyr i gyfrif.

| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh** |
|---|
| • Mae'r Ditectif Uwcharolygydd ar gyfer Diogelu Pobl Fregus wedi awgrymu bod cynrychiolydd SCHTh yn mynychu cyfarfod rheoli dyddiol i arsylwi trafodaethau o'r fath a dwyn i gyfrif. Mae hyn i'w drefnu gan SCHTh. |

## Argymhellion Monitro Cyflawnwyr

| **Argymhelliad 14**<br>**Dylai'r heddlu ystyried gweithredu prosesau i reoli gorchmynion sifil fel yr argymhellwyd gan arweinydd Trais yn Erbyn Menywod a Merched yr heddlu yn yr adolygiad o gam-drin domestig. Dylai hyn gynnwys mwy o weithgarwch dilynol a monitro unwaith y bydd ymyriadau, megis y Rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd wedi'u cwblhau.** |
|---|
| **Ymateb Gorffennaf 2023**<br>• Mae'r swydd ychwanegol wedi'i chytuno drwy strwythurau llywodraethu'r heddlu, a bydd yn cael ei hysbysebu yn hydref 2023. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Bydd rôl y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn sicrhau bod ymyriadau a throseddwyr yn cael eu monitro'n fwy manwl. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Mae Pwyntiau Cyswllt Unigol yn cael eu sefydlu ar draws ardal Dyfed-Powys, sy'n cysylltu â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil i reoli ac adolygu gorchmynion sifil. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Bydd y Cynghorydd Polisi yn ceisio sicrwydd gan y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil o ran prosesau pwynt cyswllt unigol a sut y caiff gorchmynion sifil eu monitro. |

| **Argymhelliad 15**<br>**Dylai'r Swyddog Gorchmynion Sifil newydd gefnogi adolygiadau o orchmynion sifil. Dylai adolygiadau o'r fath gynnwys barn y dioddefwr.** |
|---|
| **Ymateb Gorffennaf 2023**<br>• Mae'r swydd hon wedi'i chymeradwyo gan yr heddlu a bydd yn dwyn ffrwyth yn hydref 2023. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Ni ragwelir y bydd y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn ymgymryd â'r rôl hon, h.y. ymgysylltu â dioddefwyr. Y rheswm am hyn yw nad yw'n ymgysylltu â'r holl ddioddefwyr sy'n ceisio gorchymyn sifil nac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn ffynhonnell gwybodaeth a chymorth. Byddai'r swyddog ymchwilio mewn achos yn siarad â dioddefwr ac yn gofyn am ei farn. |

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae Pwyntiau Cyswllt Unigol yn cael eu sefydlu ar draws ardal Dyfed-Powys, sy'n cysylltu â'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil i reoli ac adolygu gorchmynion sifil.
- Mae'r Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil yn cynnal asesiadau risg yn ei adolygiadau o orchmynion sifil ac yn cynghori swyddogion ar y camau priodol i'w cymryd, megis pryd y dylent siarad â dioddefwyr.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Bydd y Cynghorydd Polisi yn ceisio sicrwydd gan y Cydgysylltydd Gorchmynion Sifil o ran prosesau pwynt cyswllt unigol a sut y cynhelir adolygiadau.

## Argymhellion Dioddefwyr

**Argymhelliad 16**

**Dylid annog swyddogion i ailedrych ar gytundebau cyswllt gyda dioddefwyr ar wahanol gamau o'r ymchwiliad.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Mae cytundebau cyswllt â dioddefwyr yn faes y mae'r heddlu'n gweithio arno.
- Mae gwaith i'w wneud i ddeall a yw swyddogion yn deall yr angen i adolygu'r contract dioddefwyr yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymchwilio.

**Cynnydd Chwefror 2024**

- Mae'r darn hwn o waith yn cael ei arwain gan Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymgymryd â darn o waith i sicrhau bod asesiad o anghenion dioddefwyr yn cael ei gynnal. Adroddir ar y canfyddiadau i'r Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion.

**Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**

- Mae cynrychiolwyr SCHTh yn cydgysylltu ac yn aelodau o'r Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion. Bydd presenoldeb yn y cyfarfod hwn yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus o welliant ym mhrosesau cytundeb cyswllt dioddefwyr. Bydd unrhyw bryderon ynghylch y broses hon yn cael eu hamlygu i'r CHTh.

**Argymhelliad 17**

**Dylai unrhyw ymgysylltu â dioddefwyr yn y dyfodol ystyried a oedd dioddefwyr yn cael eu hysbysu'n gyson yn unol â'r Cytundeb Cyswllt Dioddefwyr a wnaed gyda'u swyddog ymchwilio.**

**Ymateb Gorffennaf 2023**

- Mae'r arolwg boddhad dioddefwyr yn rhoi adborth am y cytundeb cyswllt dioddefwyr. Mae'r pecyn perfformiad sy'n cynnwys adborth gan ddioddefwyr ar gael i reolwyr lleol.

| |
|---|
| • Yn y dyfodol, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wella sut rydym yn bodloni'r cod ymarfer i ddioddefwyr. |
| **Cynnydd Chwefror 2024**<br>• Mae data perfformiad yr heddlu yn cynorthwyo goruchwylwyr i fonitro a rheoli diweddariadau i ddioddefwyr. |
| **Cynnydd Mehefin 2024**<br>• Mae dangosfwrdd perfformiad PowerBI yr heddlu yn darparu gwybodaeth am y dioddefwyr nad ydynt wedi cael cyswllt yn unol â'r cytundeb. |
| **Gweithgaredd monitro parhaus SCHTh**<br>• Yn unol ag Argymhelliad 17, mae Cytundebau Cyswllt Dioddefwyr a chydymffurfiaeth yn erbyn cod ymarfer i ddioddefwyr yn feysydd allweddol i'w trafod a'u craffu yn Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Bydd presenoldeb yn y cyfarfod hwn yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus o welliant ym mhrosesau cytundeb cyswllt dioddefwyr. Bydd unrhyw bryderon ynghylch y broses hon yn cael eu hamlygu i'r CHTh. |

## Adroddiad Cynnydd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a SCHTh

Sylwch na ofynnwyd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF na SCHTh ddarparu ymateb ffurfiol i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad craffu manwl.

Rhannwyd yr adroddiad â'r uwch aelodau o staff priodol, Uwch Reolwr Cyfreithiol Gogledd Cymru a Dyfed Powys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, a Chyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau'r CHTh, sydd ill dau wedi darparu diweddariad ar gynnydd argymhellion ar gyfer y ddogfen hon.

**Argymhelliad 5**

**Dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ystyried hyfforddiant annibynnol i wella dealltwriaeth a gwybodaeth barnwyr o arwyddocâd torri gorchmynion sifil.**

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Sefyllfa ragarweiniol y Coleg Barnwrol sydd â'r cylch gorchwyl i hyfforddi'r farnwriaeth yw nad oes angen hyfforddiant ar ynadon o ystyried bod y canllawiau dedfrydu sy'n berthnasol i dorri gorchmynion amddiffynnol yn drylwyr ac ar gael. Nid yw'n ymddangos bod angen mewn mannau eraill mewn rhanbarthau eraill ledled Cymru a Lloegr.
- Er gwaethaf yr uchod, y llynedd o ystyried y pryderon a godwyd gan yr heddlu ynghylch Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig, trefnwyd sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol i bob ynad yn ardal Dyfed-Powys trwy ddigwyddiadau Teams amlasiantaeth drwy'r cydgysylltwyr trais domestig gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF.

**Argymhelliad 18**

**Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cymorth a ddarperir i ddioddefwyr stelcio yn y broses o aildendro gwasanaethau dioddefwyr a thystion sydd ar ddod gan SCHTh.**

**Cynnydd Mehefin 2024**

- Mae Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion Goleudy ar hyn o bryd yn darparu cymorth i ddioddefwyr risg canolig a safonol cam-drin domestig, ac mae hyfforddiant arbenigol ar gael i staff. Fel y cyfryw, dylai darpariaeth gwasanaeth allu cynnig lefel gyntaf o gymorth i ddioddefwyr, gan gynnwys y rhai sy'n profi troseddau stelcio. Byddent wedyn yn cyfeirio fel y bo'n briodol at gymorth arbenigol.
- Mae'r CHTh hefyd yn comisiynu darparwyr arbenigol ar gyfer cam-drin rhywiol a chymorth cam-drin domestig, ac mae gan y ddau ohonynt hyfforddiant arbenigol ar stelcio. Dylid adolygu pob achos unigol i sicrhau y darperir y cymorth mwyaf priodol.
- O fewn y fanyleb ar gyfer y gwasanaeth atgyfeirio dioddefwyr newydd mae gofyniad i'r darparwr weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol i sicrhau bod cymorth ar gael i bob dioddefwr cam-drin domestig, gan gynnwys y rhai sy'n profi stelcio.

- Ar wahân i hyn, bydd y gwasanaeth newydd sy'n darparu gwasanaethau cynghori annibynnol ar drais rhywiol ar draws Dyfed Powys, Gwent a De Cymru yn mynd yn fyw ar 1 Gorffennaf 2024 a bydd yn cefnogi'r rhai sy'n profi stelcio o fewn cyd-destun trais rhywiol.
- Mae'r CHTh wedi cymeradwyo cyllid yn ddiweddar i SCHTh i dreialu gwasanaeth lle bydd dioddefwyr stelcio yn cael cymorth arbenigol gan weithiwr achos eiriolaeth stelcio annibynnol. Bydd y gwasanaeth peilot yn cynnig eiriolaeth i ddioddefwyr stelcio risg uchel a chynnig cymorth tymor byr/cyngor untro i ddioddefwyr risg isel a chanolig. Mae hyn yn sicrhau lefel o gymorth i bob dioddefwr stelcio. Bydd yr hyfforddiant ategol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd wedi'i gynnwys yn y cytundeb peilot yn sicrhau dealltwriaeth ehangach o stelcio a'i gymhlethdodau, a'r cymorth sydd ei angen ar ddioddefwyr stelcio.

## Casgliad

Mae'n galonogol gweld y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion a'r cynlluniau sydd gan yr heddlu ar gyfer eraill.

Nid oes unrhyw argymhellion wedi cael sgôr coch o ran y cynnydd a wnaed.

Mae'r heddlu wedi cydnabod yr angen am ganolbwyntio'n barhaus ar y gwaith hwn wrth anelu at wella'r modd y maent yn darparu gwasanaethau i leihau'r risg i ddioddefwyr a'r cymunedau ehangach.

Fel y manylir drwy gydol yr adroddiad, bydd SCHTh yn parhau i fonitro cynnydd Heddlu Dyfed-Powys yn y maes hwn i gynorthwyo gwella plismona stelcio ac aflonyddu a rheoli cyflawnwyr ymhellach.

Bydd cynrychiolwyr yn parhau i fynychu cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r maes thematig hwn, a gofynnir i Heddlu Dyfed-Powys ddarparu adroddiadau cynnydd pellach i'r Bwrdd Plismona yn rheolaidd.